**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

27 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar am gyfraniadau'r Pwyllgor Cyllid yn y rôl hanfodol o graffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru. Wrth graffu ar Gyllideb ddrafft 2023-24, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid yr argymhelliad canlynol:

*'Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod ac yn egluro pam nad oedd modd cynnwys y dyraniadau hyn yn y Gyllideb Ddrafft am yr ail fwyddyn yn olynol.'*

Mae Llywodraeth Cymru yr derbyn yr argymhelliad hwn. Serch hynny, hoffwn i eto amlinellu'r cymhlethdod sy'n ein hwynebu wrth ddyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae wedi'i neilltuo o fewn y gyllideb gyfalaf na ellir ond ei ddefnyddio ar gyfer benthyciadau neu fuddsoddiadau. Felly, ni ellir ond ei ddyrannu pan fyddwn yn sicr y gellir disgwyl adenillion. Mae angen inni sicrhau y bydd modd adennill benthyciadau ac na fyddant yn cael effaith niweidiol ar ein sefyllfa gyllidebol ehangach. Yn sgil hyn, rhaid imi sicrhau bod systemau cadarn a phriodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus, lleihau risg a sicrhau effeithiolrwydd ein buddsoddiadau.

Fel yr wyf wedi'i amlinellu o'r blaen i'r Pwyllgor, mae'r cyfyngiadau ar y math hwn o gyfalaf – megis peidio â gallu benthyca i gyrff cyhoeddus – yn ei gwneud yn fwy heriol ei roi ar waith. Mae hefyd yn werth nodi bod y gyllideb cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i neilltuo yn llai na 0.4% o gyfanswm cyllid Cymru sydd ar gael yn 2023-24. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi blaenoriaeth i ddyrannu 98% o'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth. Serch hynny, rwy'n cydnabod rhwystredigaeth y Pwyllgor a byddaf yn cymryd pob cam i sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd yn achos Cyllideb Ddrafft 2024-25.

Rwyf wedi cynnwys rhestr o'r dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer 2023-24 er mwyn i'r Pwyllgor Cyllid eu hystyried.

- I estyn y cynllun achub morgeisi presennol, rydym yn dyrannu £40 miliwn i gefnogi'r rhai mewn anhawster ariannol tymor byr a thymor hir, drwy fenthyciad tymor byr, cynnyrch gwrthol rhannu ecwiti, neu gyfuniad o'r ddau. Y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nod yw osgoi digartrefedd ac atal adfeddu.

- I greu cynllun newydd a fydd yn darparu benthyciadau tymor byr a thymor hir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i helpu i ariannu cynlluniau datblygu mewn perthynas â’r Grant Tai Cymdeithasol, rydym yn dyrannu £59 miliwn o gyfalaf. Bydd hyn yn helpu i leddfu effaith negyddol chwyddiant a benthyca, gan roi sicrwydd i’r sector. Bydd hefyd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio tai cymdeithasol ac yn darparu arbedion i denantiaid.

- Mae Cymorth i Brynu - Cymru wedi cefnogi miloedd o bobl i wireddu eu breuddwyd o fod yn berchen ar dŷ, ers ei lansio ym mis Ionawr 2014, gyda mwy na 13,400 o gartrefi wedi cael eu darparu drwy’r cynllun, ochr yn ochr ag ysgogi newidiadau yn y diwydiant tai. Rydym yn dyrannu £63 miliwn i estyn y cynllun tan fis Mawrth 2025, gan ei addasu i ystyried newidiadau yn y farchnad dai ac effaith yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ar ddarpar berchnogion tai a’r diwydiant tai.

- I barhau i gefnogi gwelliannau i’n hystad addysgol, rydym yn darparu £2.4 miliwn ychwanegol yn ein rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Yn ychwanegol i’r dyraniadau uchod, hoffwn dynnu sylw’r Pwyllgor at ddyraniadau dangosol o gyllid i’r Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a Phrif Grŵp Gwariant yr Economi gwerth £10 miliwn yr un. Ceir nifer o gynigion sydd â photensial cryf y mae angen eu datblygu ymhellach, ac mae’r rhain yn mynd rhagddynt yn gyflym. Oherwydd sensitifrwydd masnachol yr opsiynau hyn, ni allaf ddarparu rhagor o wybodaeth ar hyn o bryd. Byddaf yn darparu manylion pellach am y dyraniadau hyn wrth iddynt ddatblygu.

Edrychaf ymlaen at gael sylwadau’r Pwyllgor am y dyraniadau hyn ac at weithio gyda chydweithwyr wrth i’r cynigion fynd rhagddynt.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government